CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 11 MEDI 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd John(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Burnett, Cowan, Cunnah, Henshaw, Y Cynghorydd Wendy Lewis, Robson a/ac Smith |

38 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hunter-Jarvie, Rhys Lewis, Barbara Jones, Elaine George a Keith Jones.

39 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

40 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2020 yn gofnod cywir.

41 : ARCHIFAU MORGANNWG - ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD 1 MAI 2020 I 31 AWST 2020

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod 1 Mai 2020 – 31 Awst 2020; yr Atodiadau sy'n rhestru derbyniadau nodedig, gwybodaeth am gasgliadau a'r ymholiadau diddorol.

I grynhoi, dywedodd yr Archifydd, er gwaethaf yr heriau a achosir gan y cyfnod cloi a orfodwyd a'r cyfyngiadau ar fynd i mewn i'r adeilad, fod cynnydd wedi'i wneud ar ystod eang o brojectau dros y misoedd diwethaf. Mae'n dyst i waith caled ac ymroddiad y tîm staff bod cymaint wedi ei wneud tra maent wedi bod yn gweithio gartref. Cafodd llawer iawn o waith ei wneud i sicrhau bod yr adeilad yn barod i ailagor i staff ym mis Gorffennaf, ac mae'r gwaith hwnnw bellach yn parhau ar gyfere ailagor i'r cyhoedd yn ddiogel ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu lleddfu. Bydd yn parhau'n flwyddyn heriol, ond mae pawb yn tynnu i'r un cyfeiriad ac yn cydweithio i wneud cymaint o gynnydd ag sy'n bosibl.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am yr Unedau Trin Aer a dywedwyd wrthynt fod angen gwirio'r rhain yn rheolaidd; roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw yn ystod y cyfnod cloi ac nid oedd wedi digwydd. Roedd gwaith cynnal a chadw ar y gweill yn awr ac nid oedd yn ddrud, ond byddai briff gwylio yn cael ei gadw ar yr unedau.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld y cyfleoedd addysg a oedd wedi'u cymryd yn enwedig gyda Hanes Pobl Dduon a gofynnon nhw pa gyfleoedd eraill a ystyriwyd wrth ddatblygu adnoddau addysgol, dysgu cyfunol ac ati. Dywedodd y swyddogion fod rhai pobl wedi cysylltu â nhw i helpu yn y maes hwn ac mae angen i'r

gwasanaeth fod yn ymatebol i gyfleoedd sy'n dod i'w ffordd. Bu perthynas dda erioed gyda'r ysgolion a'r prifysgolion. Byddai cyfleoedd yn y dyfodol mewn perthynas â dysgu cyfunol ac ar-lein; gwneud peth yn wahanol fel pecynnau dysgu ar-lein, digideiddio, mwy ar y catalog, mwy o adnoddau addysgol ac ati a chafwyd cyfle i ystyried arian ar gyfer rhai o'r rhain. Nodwyd y byddai llai o ymweliadau ag ysgolion oherwydd y pandemig, a mwy o ystafelloedd dosbarth rhithwir, ond roedd hyn yn rhoi cyfle i gynnig y gwasanaeth i ardal ehangach.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

42 : ADRODDIAD MONITRO MIS 4 ARCHIFAU MORGANNWG 2020/21

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi manylion gwariant ac incwm gwirioneddol i Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg ar 31 Gorffennaf 2020 (Mis 4), yn erbyn Cyllideb gymeradwy 2020/21 ac amcanestyniadau ar gyfer sefyllfa alldro'r flwyddyn lawn.

Nodwyd bod yr Aelodau wedi cymeradwyo cyllideb 2020/21 ym mis Rhagfyr 2019; ariennir y gyllideb trwy gyfraniadau refeniw awdurdodau lleol, a ddosrannir ar y poblogaethau cymharol; balans cyfredol y Gronfa Gyffredinol yw £174,385.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at bwyntiau allweddol o bob rhan o'r adroddiad.
I grynhoi, dywedwyd wrth yr Aelodau, ar gyfer y flwyddyn gyfredol, y rhagwelir y bydd cost net darpariaeth gwasanaeth Archifau Morgannwg yn £601,945 yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd, sef £654,000. Mae hyn yn cynnwys y tyniadau i lawr o'r cronfeydd wrth gefn o £50,000 fodd bynnag, gan gynrychioli tanwariant cyffredinol o £52,055. Os nad oes angen y tyniad i lawr, bydd gwarged o tua £2,000 i'w ychwanegu at y Gronfa wrth gefn.

Ni fydd unrhyw newid yng nghyfraniadau'r Awdurdod Lleol y cyllidebwyd ar eu cyfer yn 2020/21. Bydd defnyddio'r gronfa wrth gefn gyffredinol i dynnu £50,000 i lawr yn ariannu'r bwlch yn y gyllideb yn ogystal â tharged ychwanegol ar gyfer arbedion incwm.

Cynigir i'r defnydd o'r Gronfa wedi'i gyllidebu fod yn £50,000 yn 2020/21 a £25,000 yn 2021/22, ac ar ôl hynny bydd angen nodi arbedion pellach neu bydd gofyn cael cyfraniadau ychwanegol gan yr Awdurdodau Lleol sy'n aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau a fu unrhyw ddilyniant ar fater dŵr a dywedodd y swyddogion nad ydynt wedi clywed yn ôl o'r llythyr a anfonwyd at y Tŷ Chwaraeon, er nad oedd rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i ymateb, byddai'r Swyddogion yn edrych ar hyn eto.

Nododd yr Aelodau y byddai mis 7 yn dangos effaith Covid-19 ar sefyllfa'r gyllideb yn fwy.

Nododd yr Aelodau'r broses o ail-gasio'r diffoddwyr tân, bod angen ei gwneud bob 10 mlynedd a'i bod yn hwyr yn cael ei gwneud, a'i bod wedi'i nodi'n gost annisgwyl. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw faterion eraill o'r fath y gellid eu nodi. Dywedodd y swyddogion fod ganddynt 3 dyfynbris ar gyfer yr ail-gasio a'u bod yn

amrywio'n fawr.  Dywedodd y swyddogion hefyd eu bod, wrth symud ymlaen, yn awyddus i gynnwys unrhyw gostau ailadroddus yn y cynllun ariannol tymor canolig.

Cyfeiriodd yr Aelodau at incwm a gollwyd oherwydd y pandemig a gofynnon nhw a oedd unrhyw beth y gallai'r Aelodau ei wneud i helpu, megis pwyso ar Lywodraeth Cymru i adennill incwm a gollwyd.  Esboniodd y swyddogion eu bod wedi cael cyfleoedd i wneud cais am grantiau amrywiol fel y Gronfa Adferiad Ddiwylliannol ac wedi clustnodi arian gan yr isadran Diwylliant a Chwaraeon.  Byddai'r rhain yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn incwm a gollwyd.  Mae'r swyddog yn cadw golwg ar yr holl incwm a gollir a bydd yn cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i'r arian gael ei adennill.

PENDERFYNWYD:  Nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer 2020/21 fel y nodir yn yr adroddiad.

43 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 11 RHAGFYR 2020 2.00PM

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 pm